

## Cofion

Anfonwn ein cofion at y rhai hynny sydd wedi dechrau ar driniaeth tymor hir yn ddiweddar, ac eraill sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy oll i ofal tyner ein Duw a hyderwn y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal ac yn eu hiachau. Parhawn hefyd i gofio y rhai hynny sy'n galaru am anwyliaid. Gweddiwn y byddant yn profi Duw yn agos a'u bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn. "Da yw'r ARGLWYDD i'r rhai sy'n gobeithio ynddo, i'r rhai sy'n ei geisio." (Galarnad 3:25)

## Am fynd i Oedfa'r Steddfod?

Mae croeso i bobl sydd am fynychu'r Oedfa ym mhafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych a'r cyffiniau wneud cais am docynnau mynediad rhad-ac-am-ddim unwaith eto eleni. Cynhelir yr Oedfa ar ddydd Sul, Awst 4ydd. Mae gofyn i chi archebu eich tocynnau **erbyn MEHEFIN 30ain**. I archebu, ewch i [www.cytun.org.uk/ffurflen.aspx](http://www.cytun.org.uk/ffurflen.aspx) neu cysylltwch â Mair **erbyn MEHEFIN 23ain**, os gwelwch yn dda.

## Ar Osod

Ty teras 2 ystafell wely yn Llanfair Talhaiarn. Cysylltwch a (01745) 825521 neu 720391 am ragor o fanylion.

## I ddod

- **Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg** ym Mangor Mehefin 20fed-22ain. Cysylltwch â Mair am fwy o fanylion.
- **Diwrnod Arbennig i Flaenoriaid** yng Nghapel Tegid, Y Bala dydd Sadwrn, Mehefin 29ain. Darperir cinio gan arlwywyr, felly plis cysylltwch **erbyn Mehefin 20fed** os am fynychu. Cysylltwch â Mair neu e-bostiwch [rhian.h@hotmail.co.uk](mailto:rhian.h@hotmail.co.uk).
- **Sul y Fro** dydd Sul, Mehefin 30ain yng nghwmni Steffan Morris. "**i-Grist**" – oedfa'r bore i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth yn Llansannan am 10.30. Yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i'r Brenig i gael picnic ac i gymdeithasu. Yna am 6.00, cynhelir "**Oedfa o Fawl**", eto yn Llansannan gyda rhai o ieuencid y Fro yn cymryd rhan. Croeso i bawb!
- **Cwrs Ieuencid (Blwyddyn 7-11)** yng Ngholeg y Bala Gorffennaf 29ain - Awst 2il. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Bydd gostyngiad o £10 i bob un o'r Ofalaeth fydd yn mynychu ac os bydd y coffrau'n caniatáu, mae'n bosib y gall yr Henaduriaeth hefyd gynnig gostyngiad o £10 arall. Cysylltwch â Mair ynglŷn â'r gostyngiadau hyn (870632). Mae'r Coleg hefyd yn cynnig gostyngiad os byddwch yn archebu lle **cyn Mehefin 20fed**.

## Darlleniad y Dydd

1 Samuel 3:1-10

(BCND tud.251 / BCN: tud.229)

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 16<sup>eg</sup> Mehefin 2013

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.rhaglendorcas.com](http://www.rhaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Croeso cynnes i bawb ohonoch i addoli heddiw. Gweddiwn am fendith ac eneiniaid Ysbryd Duw wrth i ni ddod at Iesu a cheisio'r ARGLWYDD a'i nerth (Salm 105:4)

Wrth wneud hynny, diolchwn am ffyddlondeb yr Arglwydd tuag atom, yn enwedig a hithau'n ddiwrnod arbennig wrth i ni ddathlu gydag aelodau Capel Cefn Meiriadog 150 mlwyddiant y capel presennol. Dymunwn i Dduw gysegro holl weithgareddau'r dydd – y moli, y cofio a'r gobeithio i'r dyfodol.

Yn y darlleniad heddiw, gwelwn hanes Samuel ifanc yn cael ei alw gan yr Arglwydd. Mae'n debyg i'r profiad fod yn un od i'r bachgen, oherwydd roedd yn rhaid iddo gael cymorth Eli i egluro wrtho'n union beth oedd yn digwydd. Ond wedi sylweddoli ymhen amser mai Duw oedd yn galw arno – ymatebodd yn gadarnhaol – "Llefara, canys y mae dy was yn gwranddo." (ad.10)

Dros y tair wythnos diwethaf, un o'r tasgau pennaf yr ydw i a Gwenno wedi bod wrthi'n ceisio'i chyflawni yw didoli ein heiddo a phenderfynu beth sydd yn mynd i ba ystafell yn Heulfryn. Wrth wneud hynny, yn aml bydd y ddau ohonom wrthi'n gweithio mewn ystafelloedd gwahanol ac wrth gwrs, ar brydiau rhaid galw o un ystafell i'r llall i gael sylw ein gilydd. Wrth glywed llais mae dau ddewis – un ai ymateb yn gadarnhaol gan wrando ar y cyfarwyddiadau a mynd at y llall, neu gau ein clustiau, anwybyddu ac ymddwyn fel nad ydym wedi clywed unrhyw beth! Mae'n bur debyg mai hwyluso'r gwaith ac adeiladu'r berthynas rhyngom fyddai canlyniadau gwranddo, ond problemau a rhwyg yn y berthynas a fyddai'n siŵr o ddod wrth anwybyddu.

Mae hynny'n wir hefyd yn ein hymateb i alwad Duw arnom. Mae Duw yn ein galw ni ato gan ein gwahodd i ddod i adnabod Iesu Grist, ac wrth adnabod Crist trwy ffydd, rydym hefyd i wrando ar ei lais a'i ganlyn Ef. (Ioan 10:27) Onid y gyfrinach felly i Gristion allu parhau yn ei ffydd, a thyfu a gwasanaethu Duw yn fwy effeithiol yw sicrhau bod ganddo glustiau sy'n barod i wrando, a chalon sy'n barod i ufuddhau i'r Gwaredwr? Beth bynnag yw ein sefyllfa neu'n pryder heddiw gallwn droi at ein Harglwydd mewn gweddi a gofyn am help ei Ysbryd i glywed Ei lais yn gliriach trwy ei Air. Ond wrth wneud hynny, rhaid i ni ystyried ydym ni wir yn barod i wrando ac ymateb i'r arweiniad hwnnw wedi inni ei glywed? Yn achos Samuel, doedd yna ddim amheuaeth – cyflwynodd ei hun i Dduw fel gwas – a thyfodd, gyda'r ARGLWYDD gydag ef. (1 Samuel 3:19) Gweddiwn ar i hynny fod yn gynyddol wir i fwy a mwy ohonom ninnau a'n teuluoedd hefyd.

Rhodri

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Bydd **Oedfa'r Fro ar Daith yng Nghefn Meiriadog** am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- **Cwrs Rhianta** yn y Granar, Llansannan am 7.45 dan arweiniad Sian Edwards ac Elinor Owen.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **“Ewch yn ein enw Ef”** – adnodd wedi ei baratoi gan y Parch. Ddr. Elwyn Richards, Cyfarwyddwr Hyfforddiant EBC yn cael ei gyflwyno gan Trebor Roberts i aelodau holl eglwysï'r Henaduriaeth yn Festri Llansannan am 7.30. Cyfle arbennig i gael trafodaeth am ymweld a bugeilio, ac i annog rhai i ymgymryd â'r gwaith. *(Bydd y daith gerdded a fwriadwyd ei chynnal heno yn cael ei chynnal ar Orffennaf 17eg.)*
- Gwener • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Robin Fferwd, a bydd Aneurin yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Dathlu 150 mlynedd ers agor Capel Cefn Meiriadog. Tynnir llun o'r aelodau am 1.00, a bydd Oedfa am 2.00 yng nghwmni'r Parch Hywel Meredydd, Llangefni. Bydd te parti i ddilyn, cyn y bydd Oedfa'r Fro yn dod i Gefn Meiriadog am 6.00. Croeso cynnes. Bydd Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 a bydd Rhodri Glyn yn arwain oedfa yno am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Trefor Lewis yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Yn ystod yr oedfa bydd Aron, mab bach Meurig a Lisa Davies yn cael ei fedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Rhag-hysbys Bydd y Pwyllgor Adeiladau yn cyfarfod nos Fawrth, Mehefin 25ain am 7.30.

## Cyhoeddiadau

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00. Yna am 3.30, bydd Cyfarfod Eglwys ar gyfer aelodau Tanyfron yng Nghanolfan Gymunedol Clwt.

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.
- Llun Bydd cyfarfod i rieni Ysgol Sul Saron yn Festri'r Capel am 7.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Bydd cyfle hefyd i ddod ag unrhyw roddion i'r Banc Bwyd. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 10.00. Yn ystod yr oedfa, bydd Elenid Gwen, merch fach Gwenan a Jonathon yn cael ei bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd y plant yn cyflwyno y Gwaith Llafar. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536,  
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291 neu  
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📱 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.